Great Eggcase Hunt

# LLYFR GWAITH

SIARC

Y Great Eggcase Hunt yw prif brosiect gwyddoniaeth dinasyddion y Shark Trust. Mae'r cynnyrch hwn wedi'i addasu i'w ddefnyddio gan Brosiect SIARC.








# Prosiect SIARC a'r Great Eggcase Hunt


Mae Prosiect SIARC yn gweithio i ddeall mwy am y siarcod a'r morgathod rhyfeddol sydd i'w cael o amgylch arfordir Cymru.

Trwy gymryd rhan yn Great Eggcase Hunt y Shark Trust a chofnodi casys wyau sy'n golchi ar y traeth, gallwch chi helpu i gasglu gwybodaeth bwysig am siarcod a morgathod sy'n dodwy wyau.

**Mae'r llyfr hwn yn perthyn i**

..............................................................


**Gadewch i'ch anturiaethau hel casys wyau ddechrau...**



# BETH YW CAS WY?

Mae rhai siarcod, a phob morgath, yn atgynhyrchu trwy ddodwy wyau. Mae'r rhain wedi'u hamgylchynu gan gas fel lledr caled sy'n amddiffyn yr embryo wrth iddo ddatblygu y tu mewn.

Unwaith y bydd wy yn deor, mae'r cas wy gwag (sydd hefyd yn cael ei alw'n bwrs morwyn) yn aml yn golchi ar y traeth. Lle gall helwyr casys wyau craff fel CHI, ddod o hyd iddyn nhw!









# DATRYS Y DIRGELWCH...

**Pwy wnaeth ddodwy'r cas wy?**

Mae casys wyau i'w cael ym mhob math o siapiau a meintiau anhygoel. Felly, gydag ychydig o waith ditectif, gallwn ni ddod i ddeall pa rywogaethau sydd wedi eu dodwy.







Erbyn diwedd y llyfr hwn, byddwch yn arbenigwr ar ddod o hyd i gasys wyau!


**FFAITH DDIFYR:** Mae casys wyau wedi'u gwneud o golagen a cheratin. Yr un deunydd â gwallt ac ewinedd pobl!

# MATHAU O GASYS WYAU

## MORGATH


Mae casys wyau morgath yn siâp petryal, gyda chorn ar bob cornel.







## MORGI

Mae casys wyau morgi ar ffurf pin bowlio, yn aml gyda thendriliau cyrliog.







**YN Y DU AC IWERDDON DIM OND CASYS WYAU MORGATHOD A MORGWN RYDYN NI'N EU CANFOD...**




**...OND MAE MATHAU ERAILL O GASYS WYAU O BOB CWR O'R BYD!**

## HORNSHARKS


Mae'r cas yn droellog ei siâp. Mae gan rai rhywogaethau dendriliau hefyd!






## CWNINGEN FÔR


Mae cas wy Cwningen Fôr ar ffurf deilen neu werthyd gydag ymyl o amgylch y tu allan.





## MORGI BRITH

Mae cas wy Morgi Brith yn hirgrwn neu'n grwn ei siâp. Yn aml, mae gan y cas wy dri chorn.





**Eisiau profi eich sgiliau adnabod? Rhowch gynnig ar y cwis adnabod casys wyau ar dudalen 38!**

# ANATOMI CASYS WYAU


## CASYS WYAU MORGWN

- Ar ffurf pin bowlio.
- Yn aml, mae ganddyn nhw dendriliau cyrliog ar y naill ben a'r llall.

**TENDRILIAU** - helpu i lynu'r wyau i wymon a chreigiau.

**AGORIAD** - dyma lle mae'r llo bach yn ymdroelli'n rhydd.

**CAPSIWL** - pan fyddwn yn mesur casys wyau rydyn ni'n cofnodi hyd y capsiwl.






## CAS MORGATH


- Yn fwy petryal ei siâp..
- Cyrn amlwg.

**CYRN** - helpu i angori'r plisg at wymon, tywod, neu greigiau.

**FFEDOGAU A CHELIAU** - strwythurau hyblyg sy'n helpu i angori'r casys wyau i lawr.


**AGORIAD** - dyma lle mae'r llo bach yn ymdroelli'n rhydd.

**CAPSIWL** - pan fyddwn yn mesur casys wyau rydyn ni'n cofnodi hyd y capsiwl, nid y cyrn.



# CYLCH BYWYD

Yn dibynnu ar y rhywogaeth, gallant gymryd 5-12 mis i ddeor, weithiau'n hirach.




1

Y fenyw sy'n dodwy wyau.

2

Mae embryo yn datblygu y tu mewn i'r cas wy, gan fwydo ar y cwd melynwy.

3

Mae'r embryo yn pwmpio dŵr ocsigenedig i mewn i'r cas wy trwy guro ei gynffon...

4

Ond, pan fydd ysglyfaethwyr yn agos ato, bydd yn aros yn llonydd iawn i osgoi cael ei ganfod..

5

Unwaith y bydd yr embryo wedi amsugno'r melynwy, bydd yn ymdroelli'n rhydd trwy agoriad bach ar frig y cas wy.

6

Mae'r llo yn parhau i dyfu. Pan fydd y benywod yn ddigon hen, byddan nhw'n dodwy wyau eu hunain. Ac mae'r broses yn cael ei hailadrodd.

# HELFA CASYS WYAU


* Y draethlin yw'r llinell o wymon a malurion sy'n nodi'r llinell penllanw ar draeth.

## AWGRYMIADAU:

- Un o'r llefydd gorau i ddod o hyd i gasys wyau yw ymhlith y gwymon sy'n ffurfio'r draethlin*. Gallan nhw fod yn anodd eu gweld, felly cadwch eich llygaid ar agor.
- Mae casys wyau sych yn ysgafn iawn ac yn aml yn cael eu chwythu i gefn y traeth. Mae hwn yn lle gwych i chwilio hefyd.
- Mae tywydd stormus yn golchi llawer o wymon a malurion. Felly, mae ar ôl storm yn amser gwych i fynd i hela casys wyau.

## PECYN OFFERT

- [x] Bwced
- [x] Ffon i chwilota
- [x] Camera
- [x] Pren Mesur/Darn arian (i ddangos maint)
- [x] Canllaw Adnabod Casys Wyau







## COFIWCH:

Os ydych chi'n dod o hyd i blisg wyau gydag embryo byw y tu mewn, rhowch ef yn ôl yn y môr. Ceisiwch ei bwyso i lawr yn ofalus fel nad yw'n golchi i'r lan eto.

Parchwch fywyd gwyllt a pheidiwch â mynd ag anifeiliaid byw adref.

Pan fyddwch chi'n edrych ar y draethlin, beth am lanhau ychydig ar y traeth?


## BYDDWCH YN DDIOGEL

- Gwiriwch amseroedd y llanw.
- Dywedwch wrth rywun i ble rydych chi'n mynd.
- Defnyddiwch ffon wrth chwilota drwy wymon.
- Byddwch yn ofalus wrth ymyl clogwyni.




# Y TEULU CASYS WYAU

Ar eich anturiaethau yn y DU ac Iwerddon, gallech chi ddod o hyd i unrhyw un o'r casys wyau hyn...



# CYFLWYNO CASYS WYAU SIARCOD...

Enw arall ar forgwn yw cath-siarcod, ond nid yw morgwn go iawn yn dodwy wyau!





# MORGI CEGDDU

Mae hwn yn rhywogaeth dŵr dyfnach ac felly anaml y bydd casys wyau yn cael eu golchi i'r lan a'u hadrodd i Helfa Fawr y Casys Wyau!

### SUT I ADNABOD:

- Casys wyau bach
- Cyrn byr sy'n troi am i mewn

### YN DEBYG I:

Cas wy'r Morgi Lleiaf ond mae ganddo gyrn yn hytrach na thendriliau.



# MORGI LLEIAF


Mae'r siarc arfordirol hwn yn gyffredin yn ny-froedd Prydain ac mae deifwyr yn dod ar ei draws yn aml.

### SUT I ADNABOD:

- Tendriliau cyrliog mân
- Yn aml i'w gweld wedi'u clymu mewn clym-piau mawr

### YN DEBYG I:

Cas wy'r morgi brych ond mae'n llawer llai ac yn llai cadarn.






# MORGI BRYCH

Mae'r siarc arfordirol hwn hefyd yn gyffredin yn ny-froedd Prydain. Maen nhw'n hoffi ardaloedd creigi-og gyda llawer o orchudd algâu.


### SUT I ADNABOD:

- Casys wyau hirgul mawr
- Mae gan yr ochrau ymylon trwchus
- Tendriliau cyrliog trwchus
- Capsiwl cadarn




### YN DEBYG I:

Cas wy'r morgi lleiaf ond mae'n llawer mwy.



# CWIS CYFLYM 1...


1. Cas wy pa siarc a gofnodir amlaf?

2. Pa gas wy a all edrych fel cas wy Morgi Lleiaf gyda chyrn?

3. Pa gas wy sydd i'w gael yn gyffredin yng Nghymru?

4. A yw morgi yn dodwy wyau?


Enwch rannau o'r cas wy:






# CYFLWYNO CASYS WYAU MORGATHOD...

Yn Saesneg, gelwir ambell fath o 'skate' yn 'ray'. Ond os yw'n dodwy wyau, 'skate' ydyw!



# MORGATH LYGADOG

Mae'r morgath hwn yn atgynhyrchu trwy gydol y flwyddyn, gan ddodwy hyd at 100 o wyau'r flwyddy.




**SUT I ADNABOD:**

- Cyrn uchaf hir iawn sy'n troi tuag i mewn
- Ffedogau yn bresennol ond efallai ddim yn amlwg
- Mae'r casys wyau yn grwn iawn ac yn daclus
- Dim celiau


**YN DEBYG I:**

Morgath Fannog. Gall fod yn anodd ei hadnabod os yw'r cyrn uchaf wedi torri i ffwrdd. Mae'r ffedog isaf weithiau ar goll



# MORGATH FANNOG

Mae'r forgath hon yn dodwy rhwng 60 a 70 o wyau'r flwyddyn ar ardaloedd tywodlyd neu fwdlyd.




**SUT I ADNABOD:**


- Y cyrn uchaf yn hirach na'r cyrn isaf
- Mae'r cyrn isaf yn troi tuag i mewn gan greu bachau bach
- Ffedogau yn bresennol
- Dim celiau

**YN DEBYG I:**

Morgath Donnog ond mae ychydig yn llai. Morgath Lygadog ond mae'r cyrn uchaf yn fyrrach.
Fel arfer, mae'r ffedog uchaf wedi'i threulio neu wedi'i thorri.

# MORGATH DONNOG

Mae'r forgath hon yn dodwy tua 30 o wyau bob blwyddyn, fel arfer rhwng mis Mawrth a mis Medi.




### SUT I ADNABOD:

- Mae'r cyrn uchaf yn aml yn ymledu allan
- Dim celiau
- Ffedogau yn bresennol


### YN DEBYG I:

Morgath Fannog, ond mae ychydig yn fwy. Yn aml mae gan ymylon y capsiwl ffibrau ynghlwm, gan roi ymddangosiad carpiog iddo.



# MORGATH BIGOG

I'w chael o Ganada draw i Norwy, mae'r forgath hon yn dodwy 10-41 o wyau bob blwyddyn.




### SUT I ADNABOD:


- Celiau a ffedogau yn bresennol
- Cyrn uchaf ac isaf o hyd tebyg
- Mae gan y capsiwl arwyneb ychydig yn arw

### YN DEBYG I:

Morgath Styds yn ei siâp ond mae'n llai gyda theimlad nodedig iawn.

# MORGATH STYDS

Mae'r forgath hon yn dodwy hyd at 150 o wyau'r flwyddyn!




### SUT I ADNABOD:

- Sgwâr neu betryal o ran siâp
- Celiau a ffedogau yn bresennol
- Cyrn uchaf ychydig yn hirach na'r rhai isaf

### YN DEBYG I:

Morgath Felen ond mae'n llawer llai.

Morgath Bigog ond mae'r arwyneb yn llyfn.



# MORGATH LYGAID- BACH


Mae'r forgath hon fel arfer yn bridio yn yr haf, gan ddodwy 54 -61 o wyau'r flwyddyn.

### SUT I ADNABOD:

- Cyrn uchaf mân iawn sy'n torri'n hawdd
- Celiau a ffedogau yn bresennol
- Mae'r cyrn isaf yn fyr ac yn fachog
- Y cas wy yn mynd yn gulach tuag at y cyrn isaf

### YN DEBYG I:

Morgath Styds, ond y cyrn yn wahanol a'r cas wy yn culhau. Mae'r ffedog flaen yn aml ar goll erbyn iddo olchi i'r lan..



# MORGATH FELEN


Mae'r forgath hon yn dodwy tua 30 o wyau'r flwyddyn rhwng mis Chwefror ac Awst.

### SUT I ADNABOD:

- Cyrn uchaf yn hirach na'r cyrn isaf
- Celiau a ffedogau yn bresennol
- Mae'r cyrn isaf yn troi tuag i mewn gan greu bachau

### YN DEBYG I:

Morgath Styds o ran ei siâp cyffredinol ond mae'n hirach ac yn fwy, gyda chyrn uchaf hirach.






# MORGATH LAS


Gellir dod o hyd i'r forgath hon sydd mewn perygl difrifol ym Môr Iwerddon a dyfroedd Gogledd-orllewin yr Alban.

### SUT I ADNABOD:

- Cyrn byr sy'n troi am i mewn
- Celiau a ffedogau yn bresennol
- Arwyneb y capsiwl yn edrych fel rhisgl
- Lliw - brown golau/euraid

### YN DEBYG I:

Morgath drwynfain ond mae ychydig yn llai. Yn aml, prin y gellir gweld y celiau.




# MORGATH DRWYNFAIN

Roeddem yn arfer credu mai'r un rhywogaeth oedd y Forgath Drwynfain a'r Forgath Las - dim ond yn 2010 y cafodd y ddwy eu cydnabod fel dwy rywogaeth wahanol!

**SUT I ADNABOD:**

- Casys wyau mawr iawn
- Arwyneb y capsiwl yn edrych fel rhisgl
- Celiau a ffedogau yn bresennol




**YN DEBYG I:**

Morgath Las o ran teimlad ond mae ychydig yn fwy.




# MORGATH WEN

Mae'r forgath hon yn dodwy 55-158 o wyau'r flwyddyn.

**SUT I ADNABOD:**

- Sgwâr mewn siâp gydag arwyneb ychydig yn arw
- Celiau a ffedogau yn bresennol
- Cyrn tebyg i ruban
- Mae'r cyrn isaf yn fyrrach ac yn fachog




**YN DEBYG I:**

Morgath Drwynfain o ran maint, ond mae'r casys wyau yn edrych yn wahanol iawn..


# CWIS CYFLYM 2...

1. Casys wyau pa forgath a gofnodir amlaf?

2. Casys wyau pa 3 morgath sy'n gallu edrych fel cas wy Morgath Styds?

3. Casys wyau pa 3 morgath sydd heb geliau?

Enwch rannau o'r cas wy:






# DA IAWN!

Rydych chi wedi llwyddo i ddysgu sut i adnabod **13** o wahanol gasys wyau! Darllenwch ymlaen i ddarganfod beth i'w wneud ar ôl i chi ddod o hyd i gas wy...

Eisiau profi'ch sgiliau adnabod?


Rhowch gynnig ar y cwis adnabod casys wyau ar dudalen 39!



# AR ÔL DARGANFOD...

Unwaith y byddwch gartref, paratowch eich casys wyau trwy wneud ychydig o wyddoniaeth bwced.

Mae gwlychu wyau yn eu gwneud yn llawer haws i'w hadnabod. Byddwch hefyd yn gweld faint y maent yn ehangu i'w maint gwirioneddol. A pha mor gadarn ydyn nhw i amddiffyn yr embryo sy'n datblygu.




1. Llenwch gynhwysydd â dŵr.
2. Ychwanegwch y casys wyau. Ceisiwch gael gwared ar yr holl aer er mwyn iddynt suddo.
3. Gadewch nhw am 1-2 awr. Efallai y bydd angen 24 awr ar gasys wyau mwy.
4. Nawr mae'n bryd profi'ch sgiliau ad-nabod casys wyau...



# ADNABOD EICH CASYS WYAU

Unwaith y bydd eich cas wy (neu gasys wyau) wedi socian, mae'n bryd gweithio allan o ba rywogaeth y daw eich cas wy. I wneud hynny, gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgoch o'r llyfr gwaith hwn!



Cofiwch edrych am y nodweddion allweddol:

- Ai morgi neu forgath ydyw?
- A oes ganddo **dendriliau** neu **gyrn**?
- Pa mor fawr yw **capsiwl** y cas wy?
- A oes ganddo **geliau**?
- Oes ganddo **ffedogau**?
- A yw'r cyrn yn hir neu'n fyr, yn drwchus neu'n denau?

Am fwy o ganllawiau adnabod o wledydd eraill, neu ar gyfer ein hallwedd adnabod cam wrth gam, sganiwch y cod QR:


CANLLAWIAU ADNABOD


# TYNNWCH LUN

Y cam nesaf yw tynnu llun o'ch holl gasys wyau.

Trefnwch nhw yn ôl rhywogaeth os gallwch chi a chynnwys rhywbeth i ddangos y raddfa (fel darn arian neu bren mesur).

Gwnewch yn siŵr bod modd gweld pob cas wy yn glir heb orgyffwrdd gormod!



Ar ôl i chi adnabod eich casys wyau, a thynnu llun, mae'n bryd cofnodi'ch darganfyddiad. →


Gall casys wyau fod yn anodd eu hadnabod. Ond rydym bob amser yma i helpu. Os byddwch chi'n cael anhawster, anfonwch e-bost atom yn **eggcase@sharktrust.org** a chaiff ein harbenigwyr casys wyau edrych ar y mater.

## COFNODWCH EICH CASYS WYAU

Ar-lein yn **www.eggcase.org**


Lawrlwythwch ein ap. Edrychwch am 'Shark Trust' yn yr App Store.

# PARU'R CAS WY



Morgath
Hornshark
Cwningen Fôr
Morgi brith
Morgi
MORGI BRYCH
MORGATH STYDS
MORGI LLEIAF
MORGATH DRWYNFAIN
MORGATH FANNOG

# CHWILAIR

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | F | TH | E | RH | M | CH | C | L | C |
| N | Y | Â | FF | O | D | N | Ê | I | A |
| LL | E | R | R | E | Ô | Î | L | FF | P |
| Î | D | G | N | H | D | E | S | RH | S |
| D | I | A | B | P | M | O | G | G | I |
| C | A | S | W | Y | R | LL | G | J | W |
| J | M | C | Â | S | A | L | TH | A | L |
| T | E | N | D | R | I | L | I | A | U |
| FF | W | S | M | O | R | G | A | TH | H |
| N | Ô | P | G | Ê | T | H | LL | L | H |



CAPSIWL
CAS WY
CÊL
CYRN
FFEDOG
MORGATH
MORGI
TENDRILIAU





# CWIS CYFLYM 3...

1. Casys wyau pa ddau fath o forgi a gofnodir amlaf?

2. Os ydych chi'n dod o hyd i gas wy sy'n edrych fel Morgath Bigog ond sy'n llyfn, mae'n debygol mai...ydyw?

3. Beth yw'r tri chas wy mwyaf?


4. Pa siarcod sydd â chas wy troellog?

5. Pa gas wy sy'n ymddangos yn logo'r Great Eggcase Hunt?


6. Faint o gasys wyau sydd â thendriliau?

7. Faint o wahanol rywogaethau sydd â chasys wyau sy'n golchi i'r lan yn y Deyrnas Unedig?

8. Sawl gwaith mae'r Morgi Lleiaf yn ymddangos yn y llyfr gwaith hwn?



# ADDURNWCH EICH CAS WY EICH HUN





# ATEBION:

### CWIS CYFLYM 1...

1. Morgi Lleiaf
2. Morgi cegddu
3. Morgi brych
4. Na

Cas wy (o'r brig i'r gwaelod): Tendriliau, agoriad, capsiwl

### CWIS CYFLYM 2...

1. Morgath Styds
2. Morgath Felen, Morgath Lygaid-bach a Morgath Bigog
3. Morgath Fannog, Morgath Lygadog, Morgath Donnog

Cas wy (o'r brig i'r gwaelod): cyrn (uchaf), ffedog (uchaf), capsiwl, celiau, ffedog (isaf), cyrn (isaf)

### PARU'R CAS WY

(o'r brig i'r gwaelod): morgi, 'hornshark', morgi brith, cwningen fôr, morgath


(o'r chwith i'r dde): Morgath Drwynfain, Morgi Brych, Morgath Styds, Morgi Lleiaf, Morgath Fannog

### CHWILAIR

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | F | TH | E | RH | M | CH | C | L | C |
| N | Y | Â | FF | O | D | N | Ê | I | A |
| LL | E | R | R | E | Ô | Î | L | FF | P |
| Î | D | G | N | H | D | E | S | RH | S |
| D | I | A | B | P | M | O | G | G | I |
| C | A | S | W | Y | R | LL | G | J | W |
| J | M | C | Â | S | A | L | TH | A | L |
| T | E | N | D | R | I | L | I | A | U |
| FF | W | S | M | O | R | G | A | TH | H |
| N | Ô | P | G | Ê | T | H | LL | L | H |

### CWIS CYFLYM 3...

1. Morgi Lleiaf a Morgi Brych
2. Morgath Styds
3. Morgath Drwynfain, Morgath Las, Morgath Wen
4. Hornsharks
5. Morgath Lygadog
6. 2 (Casys wyau Morgi Lleiaf a Morgi Brych)
7. 13
8. 7



Eisiau cymryd rhan? Sganiwch y codau QR i gael gwybod mwy!

eggcase.org

www.prosiectsiarc.com

**Llongyfarchiadau! Rydych chi wedi cwblhau ein hyfforddiant ar gasys wyau!!**

Diolch am ein helpu i ddarganfod mwy am siarcod sy'n dodwy wyau.

Po fwyaf rydym yn ei wybod, y gorau y gallwn eu hamddiffyn.

**Mwynhewch yr Helfa Casys Wyau!**

Mae Prosiect SIARC yn brosiect cydweithredol wedi'i arwain gan ZSL (Zoological Society of London) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Y Gronfa Rhwydweithiau Natur, Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac On the Edge.